




# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir



**Gorffennaf 2019**

**PC 45: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith  
Addysg**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: [www.conwy.gov.uk/cdlln](http://www.conwy.gov.uk/cdlln) Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

1	Cyflwyniad .....	4
2	Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau.....	4
3	Opsiynau twf strategol.....	5
4	Darpariaeth ysgolion presennol.....	5
5	Ysgolion cynradd .....	6
5.1	Rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif .....	6
5.2	Effaith dyraniadau Safleoedd Strategol a datblygiad preswyl wedi'i ymrwymo .....	8
	Llanfairfechan.....	8
	Llanrhos / Deganwy.....	9
	Hen Golwyn.....	10
	Llanrwst.....	10
6	Ysgolion Uwchradd.....	11
7	Ysgolion Eraill .....	12
8	Addysg Uwch ac Addysg Bellach.....	12
9	Ysgolion a rhwymedigaethau cynllunio .....	13
10	Casgliad.....	13

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Dyma un o gyfres o Bapurau Cefndir sy'n mynd gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI Newydd). Pan fo'r Cyngor yn cyhoeddi ei Strategaeth a Ffeirir a Chynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo esbonio sut y lluniwyd y polisi yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.
- 1.2 Pwrpas y papur cefndir hwn yw:
  - Manylu dewisiadau twf y CDLI Newydd a'u heffaith posibl ar niferoedd disgyblion.
  - Manylu darpariaeth ysgolion presennol ac esbonio Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
  - Asesu effaith y Dyraniadau Safleoedd Strategol arfaethedig ar gapasiti ysgol.
  - Nodi dyraniadau tir strategol i ddiwallu darpariaeth ysgol newydd.
- 1.3 Efallai y bydd dyraniadau tir pellach i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac i gynnwys dewisiadau twf y CDLI Newydd yn cael eu nodi yn ystod cam cyflwyno'r Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.

## 2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau

- 2.1 Mae'r PPW wedi'i adolygu er mwyn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r PPW wedi'i rannu'n bedair thema amlwg, sy'n dod ag anghenion y Ddeddf i gyd-destun polisi cynllunio a dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisiâu cynllunio. Mae Addysg yn dod o dan thema Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol, o dan Gyfleusterau Cymunedol.
- 2.2 Dywed paragraff 4.4.1 bod ysgolion, a chyfleusterau cymunedol eraill, yn cyfrannu at ymdeimlad o le, sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynderau cymunedau lleol. Mae cyfleusterau cymunedol, fel ysgolion, yn aml yn elfen allweddol o leoedd hyfyw a chynaliadwy.
- 2.3 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu dull strategol a hirdymor o ddarparu cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgolion. Dylid ystyried anghenion y gymuned leol wrth ystyried cynigion datblygu, i sicrhau bod darpariaeth yn parhau i ddiwallu anghenion preswylwyr lleol.
- 2.4 Mae ysgolion hefyd wedi'u cynnwys yn Adran Creu Lleoedd Strategol y PPW, o dan hygyrchedd. Dylid lleoli prif gynhyrchwyr galw teithio, gan gynnwys ysgolion, o fewn ardaloedd trefol sy'n bodoli neu mewn ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd trwy gerdded neu seiclo, a gyda chlydiant cyhoeddus.

- 2.5 Ni ddylai defnydd sensitif, gan gynnwys ysgolion, gael ei leoli ger ffyrdd prysur neu lwybrau cludiant eraill ble nad oes manteision cysylltedd, a ble mae mwy o amlygiad i lygredd yn effeithio ar iechyd ac amwynderau'n negyddol (para 6.7.19). Fe allai lliniaru a dylunio da ddod dros yr effaith negyddol ar iechyd a lles.

### 3 Opsiynau twf strategol

- 3.1.1 Opsiwn twf 4 yw'r opsiwn arfaethedig yn y Strategaeth a Ffebrir. Gweler Papur Cefndir 1 am fwy o fanylion. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb cyffredinol o effaith ar draws y Fwrdeistref Sirol ar blant oed ysgol.

**Tabl 1: Opsiwn twf arfaethedig a'r effeithiau posibl ar Addysg**

Ffynonellau: rhagolygon yn seiliedig ar 2017, CBS Conwy; ffigyrau dwysedd swyddi, ONS

Dangosydd effaith	Cyfanswm 2018	Her /effaith bosibl y dewis a ffebrir 2018-2033
<b>Rhagamcan</b>		
<b>Poblogaeth</b>	117,000	6,850
<b>Cartrefi</b>	52,600	4,000
<b>Addysg</b>		
<b>Cyn ysgol (0-4 oed)</b>	5,500	-250
<b>Cynradd (5-10 oed)</b>	7,500	-350
<b>Ysgol Uwchradd / lleoedd addysg bellach (11-17oed)</b>	8,450	650

- 3.1.2 Mae'n rhagweld gostyngiad yn nifer y disgyblion cynradd, a chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd. Fodd bynnag, nid yw'n cymryd dosbarthiad gofodol tai newydd a sut y gall newidiadau ar lefel setliad unigol gael effaith ar gapasiti ysgolion i ystyriaeth. Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn cynhyrchu rhagamcanion pum mlynedd i ysgolion yn seiliedig ar ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu ysgolion, a phlant iau sy'n byw yn y dalgylchoedd. Bydd y rhain hefyd yn cael eu defnyddio i asesu effaith y CDLI newydd ar lefel leol.
- 3.1.3 Ffactor arall i'w hystyried yw y bydd cyfran o breswylwyr tai newydd eisoes yn byw yn y Fwrdeistref Sirol.

### 4 Darpariaeth ysgolion presennol

- 4.1 Yn bresennol mae'r ysgolion canlynol ym Mwrdeistref Sirol Conwy:

**Tabl 2: Darpariaeth ysgolion presennol ym Mwrdeistref Sirol Conwy**  
Ffynhonnell: Addysg, CBSC

Ysgol	Dosbarthiad	Nifer yr ysgolion
<b>Cynradd*</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>53</b>
	Cymunedol	37
	Sylfaen	1
	Gwirfoddol a reolir	10
	Gwirfoddol a gynorthwyir	5
<b>Uwchradd</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>7</b>
	Sylfaen	3
	Cymunedol	4
<b>Anghenion Dysgu Ychwanegol</b>		1
<b>Safleoedd y Gwasanaeth Cynhwysiant Cymdeithasol</b>		3

\*yn cynnwys ysgolion babanod ac iau

## 5 Ysgolion cynradd

### 5.1 Rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif

5.1.1 Ysgolion yr 21ain Ganrif yw'r rhaglen adeiladu buddsoddiad strategol tymor hir ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Mae'n gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Dyma'r buddsoddiad isadeiledd mwyaf mewn ysgolion a cholegau ers y 1960au. Bu gwedd gyntaf y buddsoddiad (Band A) yn rhedeg ers 2011 ac fe'i cwblhawyd ym Mawrth 2019. Roedd yn canolbwyntio ar:

- leihau nifer yr adeiladau ysgol mewn cyflwr gwael
- darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol yn y manau cywir, a oedd yn darparu ar gyfer y galw lleol ac yn trin anghenion darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ffydd
- lleihau'r costau rhedeg i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael; a
- hyrwyddo cynaliadwyedd trwy ostwng costau sy'n ail adrodd, ynni ac allyriadau carbon.

5.1.2 Darparodd Band A ym Mwrdeistref Sirol Conwy newidiadau mewn pedair ardal. Adeiladwyd ysgol gynradd dwy ffrwd newydd, Ysgol Awel y Mynydd, yng Nghyffordd Llandudno, gan ddod ag Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed ynghyd. Mae lle i 432 o ddisgyblion ac fe'i hagarwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2017.

- 5.1.3 Lluniwyd ysgol gynradd newydd, Ysgol Nant y Groes ym Mae Colwyn, trwy ail wneud a helaethu ar safle'r ysgol oedd yn bodoli. Daeth a disgyblion Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan at ei gilydd. Mae lle i 316 o ddisgyblion yn yr ysgol newydd ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn Ionawr 2018.
- 5.1.4 Ail ddatblygwyd safle cyn Ysgol Tan y Marian i ddod â disgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Iau Tan y Marian ynghyd i sefydlu ysgol newydd, Ysgol Sŵn y Don. Ysgol gynradd gyda lle i 150 o ddisgyblion, a agorwyd yn swyddogol yn Ionawr 2018.
- 5.1.5 Adeiladwyd ysgol newydd yn Nolgarrog, i gymryd lle Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Cychwynnodd y gwaith adeiladu ym mis Tachwedd 2017 a dylai'r ysgol agor yn gynnar yn 2019.
- 5.1.6 Mae Band B, yr ail gylch buddsoddi yn cael ei ddatblygu'n bresennol. Mae Band B yn rhaglen pum mlynedd, am y cyfod Ebrill 2019 hyd Fawrth 2024. Cymeradwywyd newidiadau i ddeg ardal ddaearyddol gan Gabinet CBSC (Mai 2019) a Llywodraeth Cymru.

**Tabl 3: Gwelliannau Ysgol Band B ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2019)**

Ffynhonnell: Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Anheddiad	Ardal adeilad newydd (ha)	Ardal adnewyddu (m2)	Gofynion dyrannu
Deganwy	-	250	Dim dyraniad yn ofynnol ar gyfer yr estyniad. Mae'r tir ar gyfer yr ysgol newydd wedi'i ddyrannu fel Safle Strategol yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI newydd. Efallai y bydd y tir ar gyfer yr ysgol newydd yn cael ei ddyrannu adeg Cyflwyno'r Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd, os na ellir darparu ysgol newydd ar y safle presennol.
Dwygyfylchi	1.150		Mae'n debyg y bydd tir yn cael ei ddyrannu adeg cyflwyno'r CDLI Newydd i'w archwilio gan y cyhoedd.
Abergele	3.146	-	Mae'r tir wedi'i ddyrannu fel Safle Strategol yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI newydd.
Llanfairfechan	1.596	-	Dim angen dyraniad. Gellir ei ddarparu o fewn safle'r ysgol a'r ganolfan hamdden bresennol.
Towyn / Bae Cinmel	2.385	-	

Llandrillo-yn-rhos	2.583	-	Dim angen dyraniad. Gall safle'r ysgol bresennol a'r tir cyfagos sy'n eiddo i'r Cyngor ddarparu digon o le.
Llanddulas	1.022	-	Dim angen dyraniad. Gellir ei ddarparu o fewn safle'r ysgol bresennol.

DS Gweler Adran 5.2 ar gyfer manylion dyraniad Safle Strategol ar gyfer Llanrhos / Deganwy

- 5.1.7 Bydd band C a D yn dechrau o fis Ebrill 2024. Bydd y CDLI Newydd yn cynnwys polisi (neu bolisiâu), a fydd yn caniatáu ar gyfer darpariaeth briodol o ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys dyraniadau ysgol sydd i'w darparu neu eu gwella yn ystod cyfnod y cynllun, a dull polisi'n seiliedig ar feini prawf i ddarparu Band C a D o Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif.

## 5.2 Effaith dyraniadau Safleoedd Strategol a datblygiad preswyl wedi'i ymrwymo

- 5.2.1 Mae Safleoedd Strategol, a fydd yn cynnwys cymysgedd o ddefnydd, wedi'u dyrannu ar gyfer eu cynnwys yn y Strategaeth a Ffebrir. Mae effaith tebygol y datblygiadau preswyl arfaethedig yn y safleoedd hyn a safleoedd sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio ar ysgolion cynradd presennol wedi'i asesu isod. Dim ond safleoedd oedd wedi'u cynnwys yn y cyflenwad tir o bum mlynedd o Gyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 sydd wedi'u cynnwys.

### Llanfairfechan

- 5.2.2 Mae darpariaeth ysgolion cynradd yn Llanfairfechan yn cael ei darparu gan ddwy ysgol ar hyn o bryd, Ysgol Pant y Rhedyn (139 disgybl) ac Ysgol Fabanod Llanfairfechan (101 disgybl). Mae ysgol newydd ar gyfer 270 o ddisgyblion cynradd wedi'i chytuno fel rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Bydd hyn yn derbyn y 240 o ddisgyblion presennol, gyda 30 lle ychwanegol ar gyfer hyblygrwydd yn y dyfodol. Cytunwyd y capasiti hwn ymhell cyn dyrannu safle strategol arfaethedig yn Llanfairfechan, ac felly nid yw'n ystyried unrhyw dwf yn y CDLI Newydd.
- 5.2.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcanol y disgyblion a allai fod yn byw yn y dyraniad safle strategol yn Llanfairfechan, a safleoedd eraill yn nalgylch yr ysgol gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Gellir diwygio maint yr ysgol newydd i ystyried y capasiti ychwanegol. Amcangyfrifir y bydd angen 2 hectar o dir er mwyn darparu'r ysgol newydd. Efallai y bydd angen cyfraniad ariannol i dalu am gost maint ychwanegol yr ysgol yn amodol ar hyfywedd.



**Tabl 4: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Llanfairfechan**

Ffynhonnell: Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd a JHLAS (2018), Polisi Cynllunio Strategol, CBSC.

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif nifer disgyblion (3-11 oed)
Safle Strategol	Dyraniad	400	80
Tir ger Fernbank, Penmaenmawr Road, Llanfairfechan, LL33 0PL	Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio. Yn cael ei adeiladu 04/2018	17	Mae'n debyg bod y safle eisoes wedi'i adeiladu a'r disgyblion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau capasiti presennol.
Adeilad West Coast, Llanfairfechan	Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	10	2

**Llanrhos / Deganwy**

- 5.2.4 Mae darpariaeth ysgol gynradd yn Llanrhos a Deganwy'n cael ei darparu gan Ysgol Deganwy ar hyn o bryd (276 disgybl). Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd. Mae estyniad newydd wedi'i gytuno fel rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Bydd hyn yn cynyddu'r capasiti i 300 o ddisgyblion. Nid yw'n ystyried twf y CDLI Newydd.
- 5.2.5 Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcanol y disgyblion a allai fod yn byw yn y dyraniad safle strategol yn Llanrhos / Deganwy, a safleoedd eraill yn nalgylch yr ysgol gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Mae natur gyfyngedig safle presennol Ysgol Deganwy yn golygu na ellir derbyn y capasiti ychwanegol sy'n ofynnol ar y safle. Bydd y gwaith a gynigwyd fel rhan o Raglen Band B yn parhau, gan ei fod yn diwallu anghenion capasiti presennol. Cynigir ysgol newydd fel rhan o ddyraniad safleoedd strategol. Mae'n debyg y bydd angen cyfraniad ariannol o'r safle a neilltuwyd (yn amodol ar hyfywedd).

**Tabl 5: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Llanrhos / Deganwy**

Ffynhonnell: Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd a JHLAS (2018), Polisi Cynllunio Strategol, CBSC.

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif nifer disgyblion (3-11 oed)
Safle Strategol	Dyraniad	250	50
Gwesty Deganwy Castle, Station Road, Deganwy, LL31 9DA	Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio. Yn cael ei adeiladu 04/2018	7	Mae'n debyg bod y safle eisoes wedi'i adeiladu a'r disgyblion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau capasiti presennol.

Pentywyn Road/Marl Lane, Cyffordd Llandudno*	Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar apêl. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	110	22
--	--	-----	----

\*Nid yw o fewn dalgylch Ysgol Deganwy ar hyn o bryd

## Hen Golwyn

- 5.2.6 Mae darpariaeth ysgol gynradd yn yr ardal hon o Hen Golwyn yn cael ei darparu'n bennaf gan Ysgol Sŵn y Don (116 disgybl). Mae Ysgol Sant Joseff (205 disgybl), Ysgol Bod Alaw (265 disgybl) ac Ysgol y Plas (81 disgybl) sy'n cynnig opsiynau ffydd a chyfrwng Cymraeg hefyd yn berthnasol. Mae rhywfaint o gapasiti ar gael yn Ysgol Sŵn y Don ac Ysgol Bod Alaw. Mae Ysgol Sant Joseff ac Ysgol y Plas yn llawn. Ni chynigir unrhyw waith i'r ysgolion fel rhan o Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- 5.2.7 Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcanol y disgyblion a allai fod yn byw yn y dyraniad safle strategol yn Hen Golwyn, a safleoedd eraill gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Ni ellir darparu ar gyfer y 90 o ddisgyblion ychwanegol a ragwelir yn yr ysgolion presennol. Mae angen estyniad mewn un neu fwy o ysgolion ac mae'n debyg y gellir darparu hyn ar y safleoedd ysgol presennol. Gellir cyflwyno hyn fel rhan o Raglen Band C, neu ar wahân os oes angen. Mae'n debyg y bydd angen cyfraniad ariannol o'r safle a neilltuwyd (yn amodol ar hyfywedd).

### Tabl 6: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Hen Golwyn

Ffynhonnell: Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd a JHLAS (2018), Polisi Cynllunio Strategol, CBSC.

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif nifer disgyblion (3-11 oed)
Safle Strategol	Dyraniad	450	90
Tir ar Berth y Glyd Road, Hen Golwyn, LL29 9HT	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	17	3
Gwesty Bae Colwyn, Ffordd Abergele, Hen Golwyn, LL29 9LD	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Yn cael ei adeiladu 04/2018	29	Mae'n debyg bod y safle eisoes wedi'i adeiladu a'r disgyblion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau capasiti presennol.

## Llanrwst

- 5.2.8 Mae darpariaeth ysgol gynradd yn Llanrwst yn cael ei ddarparu gan Ysgol Bro Gwydir ar hyn o bryd (312 disgybl). Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd. Ni chynigir unrhyw waith i'r ysgol fel rhan o Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

5.2.9 Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcanol y disgyblion a allai fod yn byw yn y dyraniad safle strategol yn Llanrwst, a safleoedd eraill gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Ni ellir darparu ar gyfer y 40 o ddisgyblion ychwanegol a ragwelir yn yr ysgol bresennol. Mae angen estyniad ac mae'n debyg y gellir darparu hyn ar safle'r ysgol bresennol. Gellir cyflwyno hyn fel rhan o Raglen Band C, neu ar wahân os oes angen. Mae'n debyg y bydd angen cyfraniad ariannol o'r safle a neilltuwyd (yn amodol ar hyfywedd).

**Tabl 7: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Llanrwst**

Ffynhonnell: Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd a JHLAS (2018), Polisi Cynllunio Strategol, CBSC.

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif nifer disgyblion (3-11 oed)
Safle Strategol	Dyraniad	200	40
Trem Gwydir, Ffordd Berthddu, Llanrwst LL26 0HE	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	34	Mae'r feddiannaeth wedi'i gyfyngu i 55+ac felly ni fydd effaith ar gapasiti'r ysgol

## 6 Ysgolion Uwchradd

- 6.1 Nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio dan Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif ar gyfer ysgolion uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Rhagwelir bod gan yr ysgolion presennol, heblaw Ysgol Bryn Elian, ddigon o gapasiti i dderbyn y dewis twf a gynigiwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd. Efallai y bydd capasiti yn Ysgol Eirias i dderbyn y twf ychwanegol, ond nid yw'r safle o fewn dalgyllch yr ysgol.
- 6.2 Mae gan Ysgol Bryn Elian 933 o ddisgyblion ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd yn cynyddu i 1,050 erbyn 2024, sy'n uwch na'r niferoedd capasiti presennol. Bydd unrhyw gynnydd mewn niferoedd disgyblion o ganlyniad i safleoedd y CDLI newydd yn ychwaneg i hyn.
- 6.3 Gallai estyniad i dderbyn y cynnydd mewn disgyblion gael ei gynnwys ym Mand C Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Mae'n debyg y bydd angen cyfraniad ariannol o'r safleoedd yn y dalgyllch (yn amodol ar hyfywedd).

**Tabl 8: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Hen Golwyn**

Ffynhonnell: Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd a JHLAS (2018), Polisi Cynllunio Strategol, CBSC.

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif nifer disgyblion (12-18 oed)
Safle Strategol	Dyraniad	450	74

Tir ar Berth y Glyd Road, Hen Golwyn, LL29 9HT	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	17	3
Gwesty Bae Colwyn, Ffordd Abergele, Hen Golwyn, LL29 9LD	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Yn cael ei adeiladu 04/2018	29	Mae'n debyg bod y safle eisoes wedi'i adeiladu a'r disgyblion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau capasiti presennol.
Tir ger Dolwen Road, Hen Golwyn	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Yn cael ei adeiladu 04/2018	12	Mae'n debyg bod y safle eisoes wedi'i adeiladu a'r disgyblion wedi'u cynnwys yn y ffigyrau capasiti presennol.
Bryn Rodyn, Dolwen Road, Hen Golwyn	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	42	7
Neuadd Eglwys St Ioan, Cliff Road, Hen Golwyn, LL29 9RW	Rhodddwyd Caniatâd Cynllunio. Rhagolygon i'w gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	10	2

## 7 Ysgolion Eraill

- 7.1 Mae estyniad wedi'i gytuno ar gyfer Ysgol y Gogarth gan Gabinet CBSC a Llywodraeth Cymru. Gellir darparu'r estyniad ar safle'r ysgol bresennol heb fod angen dyrannu tir ychwanegol.
- 7.2 Bydd safleoedd yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu hadnewyddu o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Nid oes angen dyraniad tir i ddarparu'r prosiect hwn.
- 7.3 Rhagwelir bod digon o gapasiti yn Ysgol y Gogarth a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion i dderbyn y dewisiadau twf a gynigir yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd.

## 8 Addysg Uwch ac Addysg Bellach

- 8.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cynnig Academi Twristiaeth yn eu campws yn Llandrillo-yn-Rhos. Bydd yn cael ei ddarparu ar y safle presennol ac felly nid oes angen tir ychwanegol fel dyraniad yn y broses CDLI Newydd.

8.2 Nid oes cyfleusterau Addysg Uwch yn ardal y CDLI Newydd.

## 9 Ysgolion a rhwymedigaethau cynllunio

- 9.1 Ar hyn o bryd, defnyddir y CDLI sydd wedi'i fabwysiadu a Chanllawiau Cynllunio Atodol i sicrhau cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr tuag at ysgolion drwy gytundebau cyfreithiol Adran 106. Mae hyn wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ar gyfer safleoedd cymwys sy'n profi eu bod yn ariannol hyfyw, ond mae Rheoliadau Ardreth Seilwaith Cymunedol (CIL) (2010) yn cyfyngu uno'r cyfraniadau ariannol. Bydd hyn yn effeithio ar allu'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau cyfraniadau addysgol yn y dyfodol, gan fod effaith gronol mwy nag un datblygiad mewn dalgylch ysgol yn arwain at fwy nag un cytundeb cyfreithiol.
- 9.2 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynnwys dau ddewis yn yr asesiad hyfywedd ar gyfer y CDLI Newydd, un gyda CIL ac un yn parhau â threfniadau A106 presennol (gweler papur cefndir 10). Mae CIL yn ddeddfwriaeth sydd wedi'i datganoli yn awr, ac mae'r ymagwedd hon yn darparu hyblygrwydd pe bai Llywodraeth Cymru yn newid y Rheoliadau yn dilyn Adolygiad CIL.

## 10 Casgliad

- 10.1 Bydd rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd o'r dewisiadau twf a'r datblygiadau preswyl cysylltiol yn cael effaith ar gapasiti ysgolion. Bydd yr adran Addysg yn darparu Band B Rhaglen Gwella Ysgolion yr 21ain ganrif dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried a'u cynnwys yn nyraniadau tir Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd.
- 10.2 Bydd angen i bolisiâu ar gyfer ysgolion gymryd ymagwedd hyblyg i ganiatáu ar gyfer darparu Band C a D o Raglen Gwella Ysgolion yr 21ain Ganrif. Efallai y bydd angen safleoedd pellach yng nghan cyflwyno'r CDLI Newydd i'w archwilio gan y cyhoedd.
- 10.3 Bydd y papur cefndir hwn yn cael ei ddiweddarau yn ystod cam cyflwyno'r CDLI Newydd i'w archwilio gan y cyhoedd i asesu effaith y dyraniadau safle preswyl arfaethedig ar gapasiti ysgolion, ac i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ddatrys cyfyngiadau capasiti.